

Cyngor Ysgolion Sul: Y dechrau a'r blynyddoedd cynnar

Ar ôl llawer o ohebiaeth a sawl cais gan y Methodistiaid Calfinaidd am gael un pwyllgor cydenwadol, llwyddwyd i gynnull cyfarfod o gynrychiolwyr yr enwadau yn Amwythig bnawn Mawrth, 12 Chwefror 1918. Sefydlwyd Pwyllgor Cydenwadol yr Ysgol Sul, ac mae ei weithrediadau wedi'u cofnodi mewn dau lyfr cofnodion sydd i'w gweld yn y Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth.

Yn nechrau'r 1960au ac fel ymateb i gyfrifiad 1961, ffurfiwyd Pwyllgor Cydenwadol yr Iaith Gymraeg a lluniodd lyfryn 'Gwerth dy Grys', a gyhoeddwyd gan Wasg Gomer. Mae'r paragraff am yr ysgol Sul yn nodi:

gymaint sydd gan yr eglwysi Cymraeg i'w wneud i roi eu tŷ mewn trefn; ychydig o ysgolion Sul a fedd yr offer angenrheidiol, heb sôn am athrawon cymwys, i ddysgu'r plant sy'n arfer ag offer a llyfrau diddorol yn yr ysgolion dyddiol ... darparu cynllun cyflawn o lyfrau a chyfarpar gweld a chlywed lliwgar a hollol fodern ar gyfer aelodau'r Ysgolion Sul. Pwysig yw datblygu a chadarnhau'r gweithgaredd hwn.

Roedd rhai unigolion yn aelodau o'r ddau Bwyllgor Cydenwadol, ac felly nid syndod i drafodaethau yn y cyfnod 1964/65 esgor ar gorff newydd yn dwyn y teitl Cyngor Ysgolion Sul ac Addysg Gristnogol Cymru. Cafodd cyfansoddiad y Cyngor ei gytuno a'i gadarnhau mewn cyfarfodydd ar 20 Ebrill a 24 Medi 1965. Ar 14 Ionawr 1966 arwyddodd Ebenezer Curig Davies, Gwilym Prys Davies, Joseph Haines Davies, Alun Roderick Edwards, Thomas Oliver Gregory a Morgan John Williams y Weithred o Ymddiriedaeth a baratowyd gan Gwilym Prys Davies. Derbyniwyd hon yn unfrydol ar 18 Mawrth 1966 (gweler Atodiad 1). Gofynnwyd i swyddogion a chynrychiolwyr y Pwyllgor Cydenwadol weithredu dros dro yn enw'r Cyngor, a'r Cyngor ei hun i gyfarfod ar 1 Gorffennaf 1966. Daeth Swyddogion y Cydbwyllgor yn Swyddogion y Cyngor newydd: Parch. E. Curig Davies (Llywydd); Parch. J. Haines Davies (Ysgrifennydd); Mr T. O. Gregory (Trysorydd).

Yn y cyfamser roedd camau wedi'u cymryd i ddiwygio'r addysgu, ac yn 1965 roedd Dan Lynn James wedi cyflwyno'i gynllun newydd ar gyfer yr ysgolion Sul i'r Pwyllgor Cydenwadol. Argymhellodd y Pwyllgor 'yr holl enwadau i gefnogi'r "anturiaeth" hon a hefyd *Cyflwyno'r Gair*'.

Cyhoeddwyd *Cynllun Gwaith i Athrawon Plant yr Ysgol Sul, Hydref 1965 hyd Fedi 1966* gan Wasg John Penry. Yn y cyflwyniad dywedir ei fod yn gyfnod o:

ail-afael o ddifri yng ngwaith yr Ysgol Sul. Ac fel menter newydd carem gyflwyno cynllun o wersi graddedig i'ch sylw. Bydd y cynllun yn cyd-redeg, i raddau, â'r llyfrau darllen presennol, Cyfres y Grisau, ond y gwahaniaeth hanfodol yw mai **cyfres o wersi cyflawn i athrawon** a gynnigir yn cynnwys sgwrs agoriadol, stori, gwaith ymarferol ac addoliad, a'r cyfan wedi ei raddio yn ôl oed y plant ac yn dilyn calendr yr Eglwys.

Er mwyn sicrhau llwyddiant y cynllun mae'n bwysig trefnu'r dosbarthiadau yn ôl oed y plant ... sicrhau amodau gwaith mor ffafriol ag sy'n bosibl a chael offer addas ar gyfer gwaith ymarferol ... ei arddangos i rieni ac aelodau'r eglwys ar ddiwedd y flwyddyn.

Rhannwyd y llyfryn (19tt.) yn dair adran: 1. Dosbarth y Plant Lleiaf (2–5 oed); 2. Dosbarth y Plant Iau (6–8 oed); 3. Dosbarth y Plant Hŷn (8–11 oed). Mae pob adran yn cynnwys nodweddion plentyn o'r oed penodol, yn rhoi

pwytiau allweddol i'r athro ac yn nodi pwrpas y cynllun gwaith yn gyffredinol ar gyfer pob oedran, yn ogystal â thema benodol a phwrpas gwersi pob mis.

Roedd gwybodaeth am 'y gwersi cyflawn' i'w cael yn y misolyn *Cyflwyno'r Gair*, oedd yn rhoi manylion llawn pob gwrs o dan deitlau megis: Thema, Adnod(au) Allweddol, Pwrpas; Llun ac Offer; Y wers – Cyfarch, Sgwrs, Actio, Gwaith Llaw, Stori, Gweithgarwch, Darllen, Dweud adnod, Gweddi. Cyflawnwyd y gwaith arloesol hwn gan Dan ac Elisabeth James ac mae dyled cenedlaethau o athrawon a phlant yn fawr i'w gwaith aruthrol o 1965 ymlaen (gweler Pennod 3).

Elfen arall a gafodd sylw Pwyllgor Cydenwadol yr Ysgol Sul yn y cyfnod cynnar hwn oedd cylchgronau'r plant oedd yn cael eu cyhoeddi gan y gwahanol enwadau. Roedd *Y Seren Fach*, *Y Tywysydd*, *Y Winllan* a *Trysorfa'r Plant* wedi cael eu cyhoeddi gan yr enwadau unigol ers degawdau ond yn Ionawr 1964 croesewir *Y Winllan* (yr Eglwys Fethodistaidd) at *Y Seren Fach* a'r *Tywysydd*, oedd 'wedi cydweithio am ddeng mlynedd a hynny'n hapus dros ben', yn ôl Gwilym Owen ac E. Curig Davies, eu golygyddion. Yn rhifyn Tachwedd/Rhagfyr 1965 dywed y Golygydd:

Y mae dwy flynedd yn dirwyn i ben er pan gytunodd y tri enwad (Annibynwyr, Bedyddwyr a'r Methodistiaid Wesleiaidd) i gael cylchgrawn plant unffurf. Cafodd y cylchgrawn newydd groeso gan blant a rhai hyn na phant ... bu cydweithrediad da rhwng y rhai a fu'n gofalu am y cylchgrawn ... bu'r lluniau a'r lliwiau yn help i wneud cylchgrawn teilwng o'r tri Enwad ... Erbyn hyn cytunodd y tri Enwad i uno â'r Methodistiaid Calffaidd (neu Bresbyteriaid) i gyhoeddi cylchgrawn plant unffurf i'r **Pedwar Enwad**. Rhifyn Ionawr 1966 fydd y cyntaf ... Mrs Jennie Eirian Davies, Golygydd *Trysorfa'r Plant* (cylchgrawn plant y M.C.) fydd y golygydd. Yn wir Mrs Davies ddaru wneud y cylchgrawn pedwar enwad yn bosibl. Gŵyr Mrs Eirian Davies sut i ddenu a chadw sylw plant, a darparu yn dda ar eu cyfer.

Yr hyn sydd wedi bod yn sylfaen i waith y Cyngor o'i ddechrau yw'r 'Weithred' y cyfeiriwyd ati yn gynharach. Roedd gweledigaeth y Pwyllgor Cydenwadol yn arloesol, yn eang ac yn bellgyrhaeddol. Crefydd a Chymraeg oedd y prif sylfeini, ac er mai gydag ysgolion Sul y mae'r Cyngor wedi gweithredu'n fwyaf penodol, mae'r 'Weithred' yn caniatáu gweithgarwch llawer ehangach, fel y gwelir yn Atodiad 1. Pwynt arall sy'n arddangos nid yn unig ehangder y weledigaeth ond ei chywirdeb hefyd, yw mai dim ond un waith er 1966 y diwygiwyd geiriad 'Y Weithred', a hynny ym Mehefin 2008, pryd y gwnaed mân newidiadau i adlewyrchu'r sefyllfa gyfoes. Felly, mae'r Cyngor yn bodoli ac ar waith yn ffurfiol ers mis Gorffennaf 1966.

Cyn symud ymlaen at benodau a fydd yn edrych yn fwy manwl ar weithgareddau'r Cyngor dros hanner can mlynedd ei fodolaeth, mae'n werth aros am ychydig i ystyried y meddylfryd a fodolai yn ystod ei flynyddoedd cynnar. Un peth amlwg ydi fod dilyniant clir o'r Pwyllgor Cydenwadol. Sicrhawyd hyn drwy ethol swyddogion y Pwyllgor Cydenwadol yn swyddogion cyntaf y Cyngor yn ei gyfarfod cyntaf ar 1 Gorffennaf 1966. Roedd hefyd nifer o is-bwyllgorau ac iddynt ysgrifenyddion: Cyllid a Chyhoedduswyd (Mrs Enid Morgan, Aberaeron); Llenyddiaeth (Y Parch. Griffith Parry, Caernarfon); Clyweled (Y Parch. Gareth Maelor Jones, Aber-soch); Cynadleddau (Y Parch. Curig Davies); Cwis Ysgrythurol (Mr Alun Creunant Davies). Yn amlwg, roedd ymgais lew a brwdfrydedd i geisio rhoi bywyd newydd ym mhob agwedd o'r gwaith a hefyd ddyhead i ymestyn gorwelion. Roedd *Antur*, 'ffilmgell', ysgol haf, cwis ysgrythurol, ysgolion undydd a'r gynhadledd i gyd yn fwrlwm o weithgaredd, yn ogystal â holl ffresni'r meysydd llafur newydd blaengar.

Roedd un peth allweddol yn peri pryder o'r dechrau, ac mae'n elfen sydd wedi parhau drwy'r blynyddoedd, sef cyllid. Yn Hydref 1967 aeth llythyr at bob henaduriaeth, cwrdd chwarter, ayyb, yn apelio am gefnogaeth ariannol, gyda'r frawddeg allweddol: 'rhaid wrth gefnogaeth ariannol os ydym i lwyddo yn yr arbrofion a wneir er diogelu'r Ysgol Sul yng Nghymru.' Awgrymwyd bod pob capel oedd â llai na chant o aelodau yn cyfrannu deg swllt, a'r rhai â dros gant o aelodau yn cyfrannu £1. Roedd yr ymateb yn druenus: £294 oedd cyfraniadau hyd at fis Mawrth 1968, ac yn y flwyddyn ddilynol derbyniwyd £212. Mae'n amlwg fod y Cyngor wedi anobeithio, ac o 1970 ymlaen cafwyd cyfraniadau gan yr enwadau yn ganolog – arfer sydd wedi parhau hyd heddiw. Yn y cyfnod hwn bu cyfraniad Mr T. O. Gregory fel tryorydd yn allweddol i ddyfodol y Cyngor. Fel rheolwr banc, roedd yn ymwybodol o'r farchnad stoc a phrynodd gyfranddaliadau yn HTV a Banc Masnachol Cymru (gan roi peth o'i arian personol hefyd). Dros y blynyddoedd bu'r cynnydd yng ngwerth y buddsoddiadau hyn yn aruthrol, a dyma sydd wedi rhoi sylfaen ariannol i'r Cyngor ers rhai blynyddoedd gan nad yw cyfraniadau blynyddol yr enwadau yn ddigon i gyfarfod â chostau a dyheadau'r Cyngor (gweler Pennod 9).